

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Lôn Tua'r Gogledd wrth Gylchfan
y Black Cat, Conwy)
(Gwaharddiadau Traffig Dros Dro)
2020

The A470 Trunk Road
(Northbound Lane at Black Cat
Roundabout, Conwy) (Temporary
Traffic Prohibitions) Order 2020

Gwnaed 14 Hydref 2020
Yn dod i rym 16 Hydref 2020

Made 14 October 2020
Coming into force 16 October 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Lôn Tua'r Gogledd wrth Gylchfan y Black Cat, Conwy) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 16 Hydref 2020.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Northbound Lane at Black Cat Roundabout, Conwy) (Temporary Traffic Prohibitions) Order 2020 and it comes into force on 16 October 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, bysiau gwasanaeth cyhoeddus neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services, public service buses or in connection with the works giving rise to this Order;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A470 Maentwrog to East of Conwy Trunk Road

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weindogion Cymru o ran Cymru.arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 07:00 o’r gloch ar 16 Hydref 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i’r Dwyrain o Gonwy sy’n ffurfio’r lôn tua’r gogledd yn arwain i Ffordd Conwy a Chylchfan yr A55 Llansanffraid Glan Conwy, Conwy.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ganiatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, droi i’r dde o’r A547 ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ganiatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, deithio tua’r gogledd o’r B5381 ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd.

Cymhwyso

7. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Hydref 2020



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

that forms the northbound lane leading to Conwy road and the A55 Glan Conwy Roundabout, Conwy.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 07:00 on 16 October 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3.No person may, during the works period, permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to make a right hand turn from A547 on the length of the trunk road specified in article 2 to this Order.

4.No person may, during the works period, permit any vehicle, other than an exempted vehicle to travel northbound on from B5381 on the length of the trunk road specified in article 2 to this Order.

5.No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

6.No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

Application

7.The prohibitions in articles 3, 4, 5, and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

8.The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 14 October 2020



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (LÔN
TUA'R GOGLEDD WRTH GYLCHFAN Y
BLACK CAT, CONWY) (GWAHARDDIADAU
TRAFFIG DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn am fod gwaith yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy, neu gerllaw iddi, wrth Gylchfan y Black Cat, Conwy neu yn ei chyffiniau.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys, gwasanaethau bysiau cyhoeddus ac ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwr sy'n teithio tua'r gogledd ar yr A547 a'r B5381 rhag mynd ar y darn o lôn tua'r gogledd Cylchfan yr A470 y Black Cat sy'n arwain i Ffordd Conwy a Chylchfan Cyffordd 19 yr A55 Llansanffraid Glan Conwy, Conwy.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd gan ddefnyddio'r B5381 neu'r A547 sy'n dymuno cyrraedd Cylchfan Cyffordd 19 yr A55 Llansanffraid Glan Conwy fydd mynd i'r dwyrain o gwmpas Cylchfan y Black Cat i'r A547 Ffordd Conwy drwy Fochdre i ymuno â'r A55 drwy'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 20.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym am 07:00 o'r gloch ar 16 Hydref 2020 ac y byddent yn parhau mewn grym am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (NORTHBOUND
LANE AT BLACK CAT ROUNDABOUT,
CONWY) (TEMPORARY TRAFFIC
PROHIBITIONS) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 Maentwrog to east of Conwy trunk road at or in the vicinity of Black Cat Roundabout, Conwy.


The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services, public bus services and for the works), cyclist and pedestrians that are travelling northbound on the A547 and B5381 from proceeding on the length of the northbound lane of the A470 Black Cat Roundabout leading to Conway Road and the A55 Junction 19 Glan Conwy Roundabout, Conwy.

The alternative route for northbound traffic using the B5381 or the A547 wishing to access the A55 Junction 19 Glan Conwy Roundabout will be to divert east around Black Cat Roundabout to the A547 Conway Road through Mochdre to join the A55 via the Junction 20 westbound entry slip road.

The temporary prohibitions are expected to come into force at 07:00 hours on 16 October 2020 and will remain in force for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government